



HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales



Heddlu Gogledd Cymru a Dwyieithrwydd



Meic Raymant

Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg
Heddlu Gogledd Cymru





MYNEGAI

tudalen

Rhagair (Mark Polin, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru).....	i
Rhagarweiniad (Dr Gwenda Rhian, Prifysgol Bangor)	ii
Cyflwyniad.....	1
Hybu Dwyieithrwydd	1
Arweinyddiaeth a Gweledigaeth	1
Buddsoddiad Mewn Strwythur, Polisi a Phobl	2
Bwrw ati i Wireddu'r Ymrwymadau yn y Cynllun Iaith	4
Y Sgiliau lawn yn y Llefydd lawn	5
Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog	10
Atodiadau.....	12

Cydnabyddiaeth

Mae'r llyfryn hwn yn seiliedig ar fy nhraethawd hir MA a oruchwyliwyd gan Dr Gwenda Rhian Jones, Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor a hoffwn ddiolch iddi am ei chefnogaeth a'i chyfarwyddyd parhaus. Diolch hefyd am ei hawgrym y dylid cyhoeddi'r llyfryn hwn yn crisialu'r gwaith o hyrwyddo dwyieithrwydd yn Heddlu Gogledd Cymru fel rhan o'r dathliad deugain mlynedd yn 2014. Hoffwn hefyd gydnabod y cyfraniad amhrisiadwy y mae hi wedi'i wneud wrth olygu a chyfrannu at y cyhoeddiad hwn.

Diolch i staff Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru am eu cymorth wrth gynhyrchu'r llyfryn hwn. Diolch yn fawr iawn yn arbennig i Glenys Williams am baratoi'r cyfieithiad Saesneg ac am ei chymorth parod wrth olygu'r fersiwn Gymraeg.

Meic Raymant

Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg, Heddlu Gogledd Cymru

Hydref 2015



RHAGAIR

Mae gwaith arwyddocaol wedi'i wneud yn Heddlu Gogledd Cymru dros y blynyddoedd i hyrwyddo dwyieithrwydd. Mae'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg yn datgan bod statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yn yr Heddlu hwn a'n bod yn anelu at fod yn sefydliad dwyieithog ac mae gwaith yn parhau i wireddu hyn.

Fel corff cyhoeddus mae arnom ddyletswydd i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ieithyddol yng Nghymru ac rydym yn cymryd hyn o ddifrif. Yn hyn o beth mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a minnau'r un mor ymrwymedig i hyrwyddo'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae'n hollbwysig ein bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â'r rhai hynny sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rhan o hyn yw'r fenter i sicrhau y gall pob aelod o staff ddangos cwrteisi ieithyddol yn Gymraeg fel isafswm. Mae'n bwysig ein bod yn gallu cynnig a darparu dewis iaith i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru. Rydym hefyd yn gweithio tuag at ddarparu'r un dewis iaith i'n staff ac fel rhan o hyn rydym yn parhau i hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog ac yn annog ac yn cefnogi ein staff i wneud defnydd o'u sgiliau Gymraeg yn y gwaith.

Mawr obeithiaf y byddwch yn mwynhau darllen am y camau a gymerwyd hyd yma i hyrwyddo dwyieithrwydd yn yr Heddlu a'r amrywiol fentrau a sefydlwyd er mwyn datblygu sgiliau iaith Gymraeg ein staff.

Mark Polin
Prif Gwnstabl





RHAGARWEINIAD

Cyflwynir yma gyfres o gamau allweddol ac arwyddocaol sy'n cloriannu ymdrechion glew Heddlu Gogledd Cymru i gyflwyno dwyieithrwydd o fewn y gweithle a'i wasanaethau canolog. Mae'r cyhoeddiad hwn yn gynnyrch ymchwil gymdeithasol yr awdur ac yn adlewyrchu ffrwyth gwaith unigolion a fu'n dawel weithgar yn hyrwyddo'r strategaeth iaith a newid diwylliannol nid yn unig o fewn y gwasanaeth, ond hefyd drwy gyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Fel rhan annatod o gyflwyno newid sefydliadol lleolir y gweithgaredd hyrwyddo yn ei gyd-destun hanesyddol. Yn dilyn cymeradwyaeth Cynllun Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru gwelwn ymrwymiad uniongyrchol i fesur capasiti iaith y gwasanaeth a'r cam arloesol cynnar hwnnw o fynnu bod Prif Swyddogion Rheolaethol newydd yn dysgu'r iaith. Ymdrinnir ag effaith hyn ar y gwasanaeth a pha mor arwyddocaol ydoedd o ran sefydlu arweiniad a gweledigaeth er mwyn gofalu bod strategaeth yn arwain at ddatblygiad byw, credadwy a pharhaus. Yn ail trafodir y buddsoddiad mewn polisi a phobl ac yna maes o law sut y rhoddwyd y cynllun iaith ar waith drwy brif ffrydio disgwyliadau ieithyddol mewn swyddi sydd â chyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd. Cryfder goroesiad unrhyw strategaeth neu gynllun iaith yw bod cyrff yn monitro cynnydd er mwyn i'r datblygiadau barhau, a'u diwygio a'u hatgyfnerthu yn unol â newid deddfwriaethol neu ofynion sefydliadol gwahanol.

Rywsut neu'i gilydd, nid wyf yn credu y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn fodlon aros yn ei unfan yn y dyfodol. Mae'r arloesedd a'r weledigaeth yn parhau, a braint yw cael bod yn rhan o'r fenter o gyhoeddi'r gwaith hwn wrth ddatblygu deugain mlynedd ers sefydlu Heddlu Gogledd Cymru. Cyflwynir y llyfryn hwn i'r sawl a fu'n weithgar yn hyrwyddo'r newid ieithyddol o fewn y gwasanaeth fel arwydd o werthfawrogiad o'u cyfraniad tuag at lwyddiant y fenter a'r arferion da a sefydlwyd.

Dr Gwenda Rhian

Ysgol Gwyddorau Cymdeithas

Prifysgol Bangor

Mawrth 2014



CYFLWYNIAD

Mae dyletswydd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar gyrrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru i baratoi Cynllun Iaith Gymraeg. Rhaid iddynt ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth drefnu a darparu gwasanaethau, yn bennaf ar gyfer y cyhoedd. Ond fel y mae amryw o sylwebyddion, astudiaethau ac arolygon wedi dangos, y mae rhai cyrrff wedi ymgymryd â'r dasg yn fwy brwdfrydig ac yn fwy llwyddiannus nag eraill.

Derbyniodd Cynllun Iaith Gymraeg ar y cyd gwreiddiol Heddlu Gogledd Cymru (HGC) ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn 1997¹. Cyn y datblygiad hwn Saesneg oedd iaith fusnes yr Heddlu.

Erbyn hyn, mae Heddlu Gogledd Cymru'n cael ei gydnabod fel un o'r sefydliadau mwyaf blaengar ymhlith y cyrrff cyhoeddus yng Nghymru o ran hyrwyddo dwyieithrwydd a hybu dysgu a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Ond sut ddigwyddodd y newid hwn mewn polisi, agweddau ac ymddygiadau?

HYBU DWYIEITHRWYDD

Yn dilyn cymeradwyaeth Cynllun Iaith Gymraeg HGC daeth yn amlwg bod yr her oedd yn wynebu'r sefydliad yn un sylweddol. Y cam cyntaf yn y broses oedd ceisio deall a mesur capasiti iaith Gymraeg gan nad oedd ystadegau dibynadwy ar allu ieithyddol swyddogion ar gael ac am nad oedd hyn ychwaith yn rhan o unrhyw gynllun strategol bwriadus. Er bod gallu ieithyddol yn y Gymraeg yn bodoli yn y gweithlu'n anffurfiol, i bob pwrpas Saesneg oedd iaith 'swyddogol' y sefydliad. Yn bwysicach, efallai, nid oedd staff penodol yn bodoli i gymryd cyfrifoldeb a pherchnogaeth am hyrwyddo'r genhadaeth.

ARWEINYDDIAETH A

GWELEDIGAETH - 'y bobl iawn, yn y lle iawn ar yr adeg iawn'

Gyda dyfodiad dau Brif Swyddog newydd ar lefel reolaethol i'r heddlu ddiwedd y 1990au gwelwyd cyfle i roi'r cynllun iaith ar waith am y tro cyntaf. Roedd rhai o aelodau Awdurdod yr Heddlu yn awyddus i sicrhau bod y cynllun iaith yn derbyn y sylw priodol drwy bennu gofyniad bod Prif Swyddogion newydd yn dysgu'r Gymraeg er mwyn iddynt ddangos sensitifrwydd diwylliannol i'r gymuned ddwyieithog. Sefydlwyd Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu fel gweithgor iaith strategol a oedd yn cynnwys swyddogion uwch ac aelodau o Awdurdod yr Heddlu o dan gadeiryddiaeth Prif Swyddog. Arwyddocâd hyn oedd bod cylch gorchwyl wedi'i sefydlu am y tro cyntaf a oedd yn ceisio sicrhau cynnydd yn erbyn rhai o'r targedau a nodir yng Nghynllun Gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Pan benodwyd Prif Gwnstabl newydd yn 2001 gosododd Awdurdod yr Heddlu amod yn ei gytundeb bod yn rhaid iddo ddysgu'r Gymraeg i safon gyfystyr â lefel TGAU ail iaith o fewn 2 flynedd. Datganodd y Prif Gwnstabl newydd ei fwriad i fodloni'r disgwyliad hwn yn llawn, gan wirfoddoli i fynd y filltir ychwanegol drwy ddysgu'r Gymraeg i lefel A. Hon oedd y garreg filltir gyntaf. Derbyniodd y Prif Gwnstabl lawer o gydnabyddiaeth allanol am ei gyflawniad ac anfonodd neges glir i reolwyr a staff fel ei gilydd am ei fwriadau a'i ymroddiad i'r iaith Gymraeg. Dyma'r tro cyntaf i rywun ar lefel prif swyddog yn y sector cyfiawnder ddatgan yn gyhoeddus ei fod am ddysgu'r Gymraeg a'i fod am sefyll arholiadau allanol i brofi ei gyrhaeddiad, ac yna mynd ati o ddifri i wneud hynny. Roedd hwn yn gam allweddol o ran gosod disgwyliad fod prif swyddogion eraill yn dysgu'r Gymraeg i lefel 'canolradd' o leiaf. Dangosodd o'r cychwyn fod ymrwymiad ar lefel reolaethol i wneud gwahaniaeth ac i gynllunio ar gyfer rhoi gwasanaeth dwyieithog diffuant i'r cymunedau, ac roedd ei barodrwydd i fuddsoddi'n sylweddol yn y broses o gyflwyno'r newid hwn yn arwydd clir o'i benderfyniad.

Cynhyrchwyd cyfres o strategaethau byr i roi ffocws ar, a gwybodaeth i reolwyr a staff ar

¹ Adran 14 (1) y Ddeddf Iaith Gymraeg ar 4/6/1997.



flaenoriaethau'r Heddlu. Yn eu plith crëwyd Strategaeth Iaith Gymraeg a oedd yn cynnwys egwyddorion a thactegau i gyflawni'r nodau (Atodiad A). Roedd dwy egwyddor i'r strategaeth, sef bod yr Heddlu am drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal a'i fod yn anelu at fod yn sefydliad dwyieithog. Dyma oedd y llinell yn y tywod. Yn ogystal, datblygwyd cyfres o ofynion strategol i gyd-fynd â blaenoriaethau plismona CPSH². Mae'n arwyddocaol felly bod statws yr iaith rŵan yn cael ei osod ar yr un lefel a mandad craidd y gwasanaeth, sef ymladd trosedd a diogelu cymunedau.

BUDDSODDIAD MEWN STRWYTHUR, POLISI A PHOBL

Un o'r camau cyntaf a gymerwyd ar y daith tuag at wireddu'r nod o hybu dwyieithrwydd yn y gwasanaeth oedd dysgu o brofiad heddlu arall. I'r perwyl hwn ymwelwyd ag An Garda Síochana (Heddlu Iwerddon) er mwyn dysgu mwy am ddwyieithrwydd yn yr heddlu hwnnw. Cafwyd cyflwyniadau a gwybodaeth gan staff allweddol yn y Garda am statws y Wyddeleg o fewn y gwasanaeth. Cynhyrchwyd adroddiad cynhwysfawr ar gyfer Prif Swyddogion HGC yn nodi'r polisiâu a'r gweithdrefnau a sefydlwyd i hybu'r iaith Wyddeleg yn y Garda ynghyd ag argymhellion ar gyfer sefydlu polisiâu a threfniadau ar gyfer gwella statws y Gymraeg a'r defnydd ohoni yn Heddlu Gogledd Cymru. Argymhellwyd y dylid rhoi mwy o sylw i recriwtio siaradwyr Gymraeg a sefydlu amodau ieithyddol sylfaenol yn y broses dethol a dewis, dwy elfen a ddaeth yn ganolog i strategaeth iaith HGC maes o law.

Yn cyd-fynd â hyn, ym mis Rhagfyr 2002 cyhoeddwyd adroddiad dylanwadol gan is-bwyllgor cyfiawnder troseddol ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg yn y drefn cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Yn yr adroddiad hwn cydnabuwyd pwysigrwydd normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg yn heddluoedd Cymru er mwyn canolbwyntio ar gynnig dewis iaith i 'defnyddwyr gwasanaeth'. Argymhellwyd y dylid gweithredu i wella sefyllfaoedd ar lefelau

strategol ac ymarferol yn genedlaethol. Cydnabuwyd gwaith arloesol ac arweiniol HGC wrth hybu dwyieithrwydd yn Adroddiad Dafis: "Y defnydd o'r iaith Gymraeg gan Heddluoedd yng Nghymru". Cydnabu'r adroddiad hefyd bwysigrwydd cyfraniad arweinyddiaeth ac ymrwymiad y Prif Gwnstabl a'r angen i bennu gorwelion cynnydd clir wrth hybu dwyieithrwydd drwy brif ffrydio'r iaith mewn polisiâu, prosesau a gweithdrefnau corfforaethol (Dafis, 2005). Cynhaliodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg nifer o adolygiadau ac ynddynt mae HGC yn derbyn cydnabyddiaeth a chlod cyffredinol am ddangos cynnydd ac arfer da. Ymhelaethwyd ar hyn gydag adroddiad gan Cwmni Iaith yn 2008 a nododd fod HGC ymhlith y sefydliadau "mwyaf blaengar" o safbwynt datblygiad, hawliau a dewis iaith weithredol o fewn polisi cyfundrefnol y sector cyfiawnder. Arweiniodd hyn at ymdrechion i gydweithio ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill yn y gogledd er mwyn gwella'r ddarpariaeth dewis iaith o fewn prosesau yn ogystal ag yn nalfeydd yr heddlu.

Er mwyn hyrwyddo newid a gweithredu strwythurol, o 2000 ymlaen aethpwyd ati o ddifrif i gynllunio ar gyfer cynyddu capasiti iaith yr heddlu drwy ddarparu hyfforddiant iaith yn y gweithle. Er bod cyrsiau iaith Gymraeg eisoes yn cael eu trefnu ar gyfer staff gan ddarparwr allanol, daeth yn amlwg bod angen canolbwyntio fwyfwy ar yr elfen greiddiol hon. Penderfynwyd felly creu swydd newydd yn yr Heddlu i fod yn gyfrifol am gydlynw a darparu hyfforddiant iaith i staff. Cyn hyn yr unig swyddi a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Gymraeg yn yr Heddlu oedd swyddi dau gyfieithydd llawn amser, ac roedd hefyd un aelod o staff a oedd, ymhlith ei gyfrifoldebau eraill, yn gyfrifol am y Cynllun Iaith Gymraeg. Roedd y buddsoddiad hwn yn ddatblygiad arloesol. Prif gyfrifoldebau deilydd y swydd newydd hon oedd adnabod blaenoriaethau ieithyddol y sefydliad yn ogystal ag anghenion y staff o safbwynt hyfforddiant ac ymwybyddiaeth iaith.

Yn ddiweddarach uwchraddiwyd swydd y Cydlynwdd Hyfforddiant Iaith Gymraeg i fod yn swydd Ymgynghorydd yr Iaith Gymraeg er mwyn

² CPSH yw Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu sy'n cynrychioli rhengoedd uchaf y Gwasanaeth. Erbyn hyn mae'n cael ei adnabod fel Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (CCPSH)



rhoi'r statws haeddiannol i'r hyrwyddo. Penderfynwyd y byddai deilydd y swydd yn gweithio'n uniongyrchol i'r Dirprwy Brif Gwnstabl a oedd yn gyfrifol am bortffolio'r iaith Gymraeg ar ran CPSH. Erbyn 2004 roedd cyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg wedi trosglwyddo i'r Prif Gwnstabl ar ei gais ei hun ac ef oedd yn cadeirio cyfarfodydd Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu. Cyfeiria llawer o sylwebyddion at bwysigrwydd hyn ac at gyfraniad y Prif Gwnstabl o ran sicrhau bod yr agenda hybu dwyieithrwydd yn cael ei gyrru o'r top, a thrwy hynny sicrhau fod hyn yn cael ei gymryd o ddifrif gan y sefydliad.

Yn dilyn cynnydd anochel yn y llwyth gwaith cyfieithu a'r dymuniad i allu cyflawni'r holl waith yn fewnol, buddsoddiwyd mewn swyddi ychwanegol yn yr uned gyfieithu. Roedd hyn yn adlewyrchu'r buddsoddiad mewnol mewn staff cefnogol i hyrwyddo'r agenda cymaint yn fwy ynghyd â'r angen i hybu'r broses o newid diwylliannol. Yn 2005 crëwyd rôl Swyddog Hyrwyddo Materion Dwyieithrwydd i weithio ar y cyd â'r Ymgynghorydd Iaith. Roedd gan ddeilydd y swydd newydd hon, a oedd, yn allweddol iawn, yn swyddog mewn lifrai, brofiad sylweddol o, a chyfrifoldeb diweddar dros faterion recriwtio. Golyga hyn fod gan y sefydliad bellach fwy o rym a gallu i roi sylw ychwanegol i gynlluniau yn ymwneud â sgiliau staff a pholisïau recriwtio yn ogystal â phrosiectau eraill. Yn sgil y datblygiadau hyn, am y tro cyntaf, cafodd yr iaith Gymraeg ei phrif ffrydio mewn modd symbolaidd a phwysig yn y gwaith o blismona. Sicrhawyd cydymffurfriad ynghyd â dealltwriaeth drylwyr o'r rhwystrau oedd yn bodoli o fewn y gwasanaeth, a rhoddodd y Prif Gwnstabl ganiatâd hefyd i'r Swyddog Hyrwyddo Materion Dwyieithrwydd a'r Ymgynghorydd Iaith wneud mwy o waith rhagweithiol gyda'r sector cyfiawnder yn ogystal â sefydliadau eraill yn genedlaethol.

Yn 2007 crëwyd adran newydd, sef yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg. Roedd yr adran yn dwyn ynghyd staff oedd yn gweithio ar lefel strategol, rheolaethol ac ymarferol ym maes polisi iaith yn ogystal â staff yr uned gyfieithu er mwyn sicrhau bod gweithgarwch yn y meysydd hyn yn y dyfodol yn effeithiol ac effeithlon. Roedd

yr Heddlu eisoes wedi cydnabod pwysigrwydd cyflogi tîm o gyfieithwyr llawn amser er mwyn darparu gwasanaeth cyfieithu proffesiynol a chyfrinachol i'r sefydliad ac Awdurdod yr Heddlu (Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd erbyn hyn). Mae gwaith y cyfieithwyr yn cynnwys cyfieithu dogfennau a gwybodaeth o bob math er mwyn sicrhau delwedd gorfforaethol gwbl ddwyieithog, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd a chyfweliadau, yn ogystal â chefnogi plismona gweithredol trwy gyfieithu cyfweliadau, datganiadau tystion a thystiolaeth yn ymwneud ag achosion troseddol. Mae'r tîm hefyd yn darparu cymorth iaith Gymraeg drwy diwtorialau a sesiynau cymorth i staff ar bob lefel yn yr Heddlu, yn ogystal ag ar gyfer unigolion sy'n dymuno ymuno â'r Heddlu yn ôl yr angen, er mwyn eu cynorthwyo i gyrraedd y lefel ieithyddol angenrheidiol.

Yn dilyn ymddeoliad y Swyddog Hyrwyddo Materion Dwyieithrwydd yn 2008, crëwyd swydd 'Cydlunydd Prosiect Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog' o fewn yr adran. Pwrpas y swydd oedd adnabod anghenion a chreu cyfleoedd i gefnogi dysgwyr i ymarfer a defnyddio'u sgiliau Cymraeg yn y gwaith ac annog mwy o ddefnydd busnes o'r Gymraeg gan staff oedd yn siarad Cymraeg. Bellach, yn dilyn ailstrwythuro sylweddol yn yr heddlu a cholli swyddi oherwydd y sefyllfa ariannol, mae'r Adran yn cynnwys Pennaeth, tri Chyfieithydd llawn amser a Chydlynnydd ac mae'n rhan o'r maes busnes Gwasanaethau Corfforaethol.



BWRW ATI I WIREDDU'R YMRWYMIADAU YN Y CYNLLUN IAITH

Recriwtio sgiliau dwyieithog

Fel y digwyddodd yn An Garda Siochana, daeth yn amlwg i Heddlu Gogledd Cymru bod angen rhoi sylw priodol i gyfraniad recriwtio tuag at newid y proffil ieithyddol, ac y dylid felly ceisio cynyddu canran y ceisiadau am swyddi fel cwnstabiliaid yr oedd yr Heddlu'n eu cael gan siaradwyr Cymraeg. Yn Ionawr 2004 lanswyd ymgyrch gweithredu positif strwythuredig i annog mwy o siaradwyr Cymraeg i ymuno â'r Heddlu. I hwyluso'r gwaith o recriwtio swyddogion â sgiliau Cymraeg creodd Heddlu Gogledd Cymru DVD Cymraeg a dwyieithog newydd sbon i godi ymwybyddiaeth darpar ymgeiswyr o'r cyfleoedd oedd ar gael o fewn yr heddlu. Roedd y Swyddfa Gartref wedi creu DVD newydd uniaith Saesneg ac wedi gwrthod ystyried gofynion dwyieithog y sefydliad. Unwaith eto, roedd hyn yn waith arloesol gan HGC ar ei liwt ei hun ac ar ei draul ei hun. Yn 2006 cyflwynwyd argymhellion gan y Swyddfa Gartref i Brif Gwnstabiliaid Heddluoedd Cymru a Lloegr ynglŷn â blaenoriaethu ceisiadau gan recriwtiaid a chanddynt naill ai wybodaeth leol am y gymuned neu sgiliau iaith gymunedol, unwaith yr oeddent wedi bodloni'r meini prawf recriwtio yn y Ganolfan Asesu. Manteisiwyd ar y cyfle i ddefnyddio'r cyngor hwn er lles yr ymgyrch i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg oedd yn cael eu penodi i HGC. Erbyn hyn nid yw'r cyngor yn weithredol, gan nad yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cydnabod gallu ieithyddol fel nodwedd sydd wedi'i gwarchod. Sut bynnag, mae'r Heddlu'n parhau i annog siaradwyr Cymraeg i ymgeisio am swyddi fel Cwnstabiliaid neu Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu (PCSO) er mwyn cynyddu sgiliau dwyieithog y gweithlu.

Cydnabod gallu yn y Gymraeg fel sgil plismona gweithredol

Gellir dadlau mai un o'r heriau mwyaf sensitif a dadleuol i sefydliadau cyhoeddus sydd yn gorfod creu Cynllun Iaith Gymraeg yw adnabod swyddi lle mae disgwyl fod gan staff sy'n eu gwneud sgiliau iaith penodol er mwyn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yn Gymraeg³. Yn HGC ar ddiwedd y 1990au, ac yn y mwyafrif o sefydliadau cyhoeddus eraill mae'n debyg, canran gymharol fach o swyddi oedd wedi'u dynodi yn rhai 'Cymraeg yn Hanfodol'.

Yn 2003 gwnaeth Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu benderfyniad allweddol y dylid cydnabod bod gallu yn y Gymraeg yn sgil, ochr yn ochr â sgiliau plismona eraill. Roedd hyn yn creu cryn her i feddylfryd adnoddau dynol corfforaethol yr Heddlu gan fod y sgiliau sydd yn cael eu cydnabod fel y rhai allweddol ar gyfer darparu gwasanaeth plismona o safon yn cael eu cytuno a'u datblygu gan adrannau'r Swyddfa Gartref yn y Llywodraeth Ganolog heb unrhyw ystyriaeth i'r sefyllfa ieithyddol yng Nghymru.

Oherwydd y sefyllfa hon ac yn absenoldeb unrhyw arweiniad neu ganllaw safonol allanol arall ar sut i fesur gallu yn y Gymraeg fel sgil mewn dull strwythuredig, tryloyw a chyson, daeth yn amlwg bod angen sefydlu proses newydd. Cyn hyn roedd gallu yn y Gymraeg yn Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei gofnodi trwy ddefnyddio geiriau fel 'dim', 'cyfarch', 'sylfaenol', 'digonol, a 'rhugl'. Roedd disgwyl i staff hunan asesu eu lefel o allu i siarad neu ysgrifennu Cymraeg yn erbyn y geiriau hyn heb unrhyw ganllaw neu ddull o gadarnhau eu bod wedi cofnodi'r lefel iawn.

Mewn ymateb i'r angen i greu canllaw safonol a fyddai'n gwella dulliau cofnodi gallu yn y Gymraeg aethpwyd ati i greu fframwaith mewnol ar gyfer mesur sgiliau iaith staff. Mae Fframwaith Hyfedredd Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru yn cynnwys lefelau o allu o 0 - 5 ac fe'i seiliwyd ar fframwaith ALTE (Association of

³ Cafwyd canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Adran 9, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 'Cynlluniau Iaith Gymraeg – eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993'. Mae canllawiau 8(i) ac 8(ii) yn gosod dyletswydd ar sefydliadau cyhoeddus i ddatblygu mesurau staffio. Yn fwy diweddar yn 2009 cyhoeddwyd cyngor pellach am y materion dyrys hyn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg fel ymateb i'r galw cynyddol gan swyddogion iaith sefydliadau cyhoeddus am fwy o eglurhad a chymorth er mwyn cyfiawnhau'r broses i staff adnoddau dynol a phrif swyddogion.



Language Testers in Europe). Mae'r fframwaith yn cynnwys cyfres o ddatganiadau 'dw i'n medru' er mwyn i staff benderfynu lle maen nhw arni (gweler Atodiad C). Rhaid cydnabod pwysigrwydd ac arwyddocâd sylweddol y datblygiadau mewnol o greu'r fframwaith gan mai mabwysiadau'r dull hwn o fesur gallu oedd y sail i'r gwaith a ddaeth wedyn i sefydlu protocolau iaith wrth benodi neu ddyrchafu staff, wrth osod lefel o allu iaith Gymraeg o fewn swydd ddisgrifiad ac wrth sefydlu strwythur newydd o gyrsiau hyfforddiant iaith mewnol. O ganlyniad, erbyn hyn mae'n rhan annatod o brosesau adnoddau dynol yr Heddlu.

Ers 2009 mae unrhyw swydd sydd yn cael ei hysbysebu yn mynd trwy broses 'matrics iaith Gymraeg yr Heddlu' er mwyn cofnodi pa lefel o allu yn y Gymraeg rhwng lefel 2 a 5, sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r swydd dan sylw. Defnyddir cyfres o gwestiynau i benderfynu pa lefel sy'n briodol. Yn eu plith ceir cwestiynau am leoliad y swydd; faint o gyswllt sydd gan y rôl gyda'r cyhoedd gan gynnwys pobl ifanc; a fydd deilydd y swydd yn gorfod gwneud cyflwyniadau i'r cyhoedd; natur y cyfathrebiadau gyda'r sawl sy'n derbyn y gwasanaeth yn allanol ac yn fewnol ac amllder cyswllt â chyrff eraill sy'n gweithredu trwy'r Gymraeg. Yn dilyn y broses hon ac unrhyw drafodaethau angenrheidiol pellach i gadarnhau bod y lefel yn briodol, bydd y lefel a gytunwyd yn cael ei nodi yn y swydd ddisgrifiad ac yn amod penodi. Os yw'n digwydd nad yw deilydd y swydd yn meddu ar y lefel honno o allu yn y Gymraeg mae'n dod yn amod cytundebol ei fod yn datblygu'r sgiliau iaith angenrheidiol o fewn cyfnod penodol. Darperir cyfleoedd hyfforddiant iaith neu gymorth i ddatblygu sgiliau yn ystod oriau gwaith gan yr Heddlu.

Gellir dadlau bod sefydlu'r broses hon wedi trawsnewid y ffordd y mae sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu gosod fel amod penodiad ar gyfer swyddi yn Heddlu Gogledd Cymru. Mae wedi sicrhau bod sgiliau iaith yn cael eu prif ffrydio i mewn i brosesau adnoddau dynol. Yn allweddol i hyn oll oedd y cyd-destun deddfwriaethol a'r ymrwymadau perthnasol yn y Cynllun Iaith Gymraeg. Ond mae'n bwysig cydnabod

cyfraniad arweinyddiaeth gadarn a'r gefnogaeth i'r agenda cyflwyno newid ieithyddol a diwylliannol o'r top yn yr Heddlu er mwyn hwyluso'r newidiadau a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gweithredu.

Y SGILIAU IAWN YN Y LLEFYDD IAWN

Cownteri blaen gorsafoedd a derbynfeydd cyhoeddus

Mae adnabod y swyddi hynny lle mae'n hanfodol bod staff yn medru cynnig dewis iaith i'r cyhoedd wedi bod yn digwydd yn yr Heddlu ers 2001 pan aethpwyd ati i edrych yn strategol ar brif fannau cyswllt cyhoeddus yr Heddlu. Penderfynwyd y byddai'n rhaid i holl staff cownteri'r gorsafoedd neu'r derbynfeydd cyhoeddus ar draws y gogledd fod â'r gallu i gynnig a hwyluso dewis iaith er mwyn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth lle bynnag y cynigir y gwasanaeth hwnnw. Yn unol â'r ymrwymiad yn y Cynllun Iaith Gymraeg, roedd y swyddi hyn ymysg y cyntaf i gael eu pennu'n swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol'. Am y tro cyntaf, roedd yn rhaid gofyn i staff nad oeddynt eisoes yn siarad Cymraeg ddysgu'r iaith i safon briodol o fewn cyfnod penodol - y disgwyliad oedd y buasant yn medru deall ac ymateb i ymholiadau cyffredinol, syml yn Gymraeg. Trefnwyd cyrsiau hyfforddiant iaith ar gyfer y staff hyn a lluniwyd cyfres o ymarferion galwedigaethol iaith Gymraeg llafar er mwyn asesu eu gallu i gyflawni'r disgwyliad. Cawsant hefyd ganiatâd i fynychu unrhyw hyfforddiant iaith neu weithgareddau atodol mewnol neu allanol yn ystod oriau gwaith er mwyn gwella eu sgiliau iaith a'u hyder i siarad Cymraeg. Roedd hyn yn allweddol i gychwyn y broses o gyflawni amcanion gweithredu'r Cynllun Iaith. Dengys y fenter fwriad yr Heddlu i ymgymryd â'r gwaith mwyaf heriol a dadleuol, ynghyd â'r syniad o osod amodau ieithyddol mewn swydd ddisgrifiadau wrth gynllunio'r gweithlu bwriadus a gwella safonau'r gwasanaeth a roddir i'r cyhoedd.



Yr ystafell reoli

Mae'r ystafell reoli yn rhan ganolog a chreiddiol o wasanaeth yr heddlu sy'n golygu bod y gallu i gynnig dewis iaith yn hanfodol. Cysylltu â'r ystafell reoli yw'r prif ddull o riportio trosedd neu ofyn am gyngor neu gymorth yr heddlu ar draws ardal ddaearyddol enfawr. Er mwyn ceisio sefydlu gwasanaeth cyson yn y ddwy iaith manteisiwyd ar ddatblygiadau electronig i hwyluso'r gallu i gynnig dewis iaith yn yr ystafelloedd rheoli. Anogwyd y cyhoedd i gysylltu â'r Heddlu ar 999 mewn argyfwng yn unig, a sefydlwyd dau rif ffôn penodol ar gyfer galwadau nad oeddynt yn rhai brys, un rhif ar gyfer galwadau Saesneg ac un ar gyfer rhai Cymraeg. Cynhaliwyd ymgyrchoedd i hyrwyddo'r ddau rif ac i roi gwybod i bobl bod ganddynt ddewis o gysylltu â'r Heddlu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Er mwyn sicrhau bod modd cyflawni'r addewid o gynnig dewis iaith, gwnaed ymdrech i ofalu bod siaradwyr Cymraeg hyderus ar ddyletswydd ar bob sifft.

Ym mis Mawrth 2005 sefydlwyd un Ganolfan Gyfathrebiadau ganolog yn Llanelwy i fod yn gyfrifol am yr holl ymwneud â'r Heddlu dros y ffôn a'r radio ar draws Gogledd Cymru. Dengys ystadegau hyfedredd iaith o'r cyfnod hwnnw mai 30% o staff y Ganolfan Gyfathrebiadau oedd yn gallu siarad Cymraeg ar lefel 4 neu uwch. Nid oedd felly modd gwarantu'r gallu i gynnig dewis iaith dros y ffôn na sicrhau cysondeb o ran safon y ddarpariaeth. Roedd angen cynllunio i wella'r sefyllfa hon ar fyrder a phenderfynwyd mai'r ffordd fwyaf effeithlon a llwyddiannus o gynyddu capasiti iaith ymhlith y trinwyr galwadau fyddai trwy leoli swyddogion heddlu oedd eisoes yn rhugl ddwyieithog i weithio yno. Daeth hyn yn fwy pwysig yn 2010 wrth i'r Heddlu symud at fabwysyadau'r rhif cenedlaethol 101 ar gyfer galwadau difrys a gorfod rhoi'r gorau i'r llinellau ffôn Cymraeg a Saesneg. Gan fod darparu dewis iaith wedi'i sefydlu'n fusnes craidd, mae ailstrwythuro mwy diweddar wedi cynnig cyfle i recriwtio trinwyr galwadau newydd i weithio yn yr ystafell reoli sy'n rhugl yn y ddwy iaith er mwyn cynyddu'r ganran sy'n ddwyieithog. Erbyn hyn mae 97% o'r Trinwyr Galwadau â sgiliau Cymraeg lefel 4 neu 5, (sef rhugl).

Y Ddalfa

Mae ymrwymiad yn y cynllun iaith hefyd i gynnig dewis iaith i'r sawl sy'n derbyn gwasanaeth yn Nalfeydd yr Heddlu. Mae cryn dipyn o sylw wedi cael ei roi i wella'r ddarpariaeth ddwyieithog yn y sefyllfa hon ers 2002 yn dilyn adroddiad Hughes (2002) ac yn fwy diweddar adroddiad Cwmni Iaith (2008). Mae gwaith wedi digwydd yn y sector cyfiawnder dros y blynyddoedd i wella prosesau cofnodi dewis iaith. Yn greiddiol i'r ddau adroddiad yw'r angen i sicrhau bod dewis iaith yn cael ei gynnig i'r sawl sy'n derbyn sylw, fod y dewis iaith hwnnw'n cael ei gofnodi a bod asiantaethau eraill sy'n rhan o'r broses cyfiawnder yn cael eu hysbysu o'r dewis. Mae'r Heddlu wedi gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder eraill yn y Gogledd er mwyn cyflawni'r nodau hyn. Rhan o'r gwaith hwn yw'r ymdrechion i gynyddu lefelau sgiliau iaith staff sy'n gweithio yn y dalfeydd yn gyffredinol, yn ogystal â cheisio cael mwy o staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl i weithio yno.

Pwysigrwydd cwrteisi iaith sylfaenol fel rhan o bob swydd

Er bod ystyriaeth benodol sylweddol wedi'i rhoi i gynyddu sgiliau yn y Gymraeg mewn rhai manau cyswllt penodol, roedd canran sylweddol o'r staff oedd eisoes yn gweithio i'r heddlu yn dal i nodi nad oedd ganddynt unrhyw allu o gwbl yn y Gymraeg. Am y rheswm hwn anogwyd staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg hyd o leiaf Lefel 1 er mwyn gallu arddangos cwrteisi iaith i'r cyhoedd a'u cydweithwyr. Byddai hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol tuag at atgyfnerthu'r ymddygiadau a ddisgwylir gan yr holl staff, ond yn arbennig swyddogion, gan fod y gallu i siarad Cymraeg a darparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid mewn ardal ddwyieithog yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gallu i 'gyfathrebu'n effeithiol', 'canolbwyntio ar y cwsmer a'r gymuned' a 'dangos parch tuag at hil ac amrywiaeth', sef tri o'r ymddygiadau plismona craidd a bennwyd gan y Swyddfa Gartref ar y pryd ac yr oedd disgwyl i swyddogion heddlu eu harddangos.



Fodd bynnag, ar y pryd roedd llwyddiant hyn yn ddibynnol i raddau helaeth ar agwedd a brwdfrydedd penaethiaid Adrannau a Rhanbarthau neu'r timau rheoli. Am y rheswm hwn felly, yn 2010, yn dilyn adolygiad o gapasiti iaith yr heddlu, penderfynodd y Prif Gwnstabl newydd fod angen ffurfioli'r disgwyliad bod pob aelod o staff yn gallu dangos o leiaf gwrteisi iaith sylfaenol, a sefydlwyd Menter Lefel 1 a oedd yn mynnu bod yr holl staff yn cyflawni'r disgwyliad hwn gyda'r nod na fyddai unrhyw aelod o staff yr Heddlu heb unrhyw allu o gwbl yn y Gymraeg. Erbyn hyn mae nod yr ymgyrch wedi'i gyflawni, trwy ddyfalbarhad, anogaeth a chefnogaeth, ac weithiau, trwy fynnu bod ambell unigolyn llai brwdfrydig yn cydymffurfio â menter a arweinir o dop y sefydliad.

Ehangu ac atgyfnerthu - gwneud gallu yn y Gymraeg yn amod penodi a dyrchafu

Yn 2005 cyhoeddodd yr Heddlu amod recriwtio newydd, sef 'Protocol Lefel 1' yn dilyn penderfyniad y dylid gweithio tuag at sicrhau y byddai unrhyw swyddogion a staff newydd nad oeddent eisoes yn siarad Cymraeg o leiaf yn gallu arddangos sgiliau sylfaenol yn yr iaith wrth gyflawni eu dyletswyddau. Gwnaed hyn yn bennaf a sail yr egwyddor bod y gallu i ddeall a dweud enw lle a chyfeiriad yn fater o iechyd a diogelwch i'r staff a'r cyhoedd fel ei gilydd. Yn ogystal mae'r gallu i ddweud enwau cyntaf pobl a chyfarch ac ateb cyfarchiad neu ffarwelio yn rhan annatod o gwrteisi ieithyddol mewn ardal ddwyieithog. Roedd teimlad hefyd fod siaradwyr Cymraeg yn yr Heddlu yn haeddu'r un parch a chwarteisi gan eu cydweithwyr ag a roddir i'r cyhoedd. O Fedi 2005 ymlaen felly, daeth yn ddisgwyliad bod pob ymgeisydd am swydd gyda Heddlu Gogledd Cymru, yn swyddogion a staff, yn gallu dangos sgiliau iaith Gymraeg llafar i Lefel 1 (cwrteisi iaith sylfaenol) cyn iddynt gael cynnig swydd.

Gan nad oedd yr arholiadau allanol ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg a weinyddir gan CBAC yn addas fel dull hyblyg o asesu gallu ieithyddol llafar yn erbyn y lefelau yn Fframwaith gallu yn y Gymraeg yr Heddlu, crëwyd cyfres o

brofion iaith Gymraeg llafar i ddibenion yr Heddlu ar y cyd â Choleg Llysfasi, y darparwr hyfforddiant iaith trwy gytundeb, er mwyn gallu asesu cymhwysedd iaith. Yn ogystal crëwyd y CD 'Cyflwyniad i'r Gymraeg - 1', sef pecyn dysgu o bell i gefnogi darpar ymgeiswyr yn eu hymdrechion i ddysgu'r iaith i'r lefel ddisgwyliedig. Roedd hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr nad oeddynt yn gyfarwydd â'r Gymraeg o dan anfantais yn y broses ddethol. Erbyn Awst 2006 ychwanegwyd at y gofyniad gyda'r disgwyl bod pob ymgeisydd llwyddiannus am swydd gyda Heddlu Gogledd Cymru yn dangos sgiliau iaith Gymraeg i Lefel 2 yn ystod eu cyfnod prawf ac er mwyn cael aros yn eu swydd. Unwaith eto, er mwyn lleihau traweffaith y polisi ar ymgeiswyr nad oedd ganddynt gysylltiad â'r Gymraeg o'r blaen, crëwyd CD 'Cyflwyniad i'r Gymraeg - 2' Heddlu Gogledd Cymru, sef yr ail CD yn y gyfres, fel pecyn dysgu o bell i gefnogi dysgwyr i gyrraedd lefel 2.

Erbyn hyn mae'r Heddlu wedi creu CD 'Cyflwyniad i'r Gymraeg' 3. Ariannwyd yr holl waith o baratoi a chynhyrchu'r ddwy CD gyntaf gan yr Heddlu ei hun ond llwyddwyd i ddenu grant gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan y prosiect 'Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle' yn 2010 i gynorthwyo gyda chostau cynhyrchu CD - 3. Prif bwrpas y CDau yw darparu adnodd hunan ddysgu i ymgeiswyr am swyddi yn yr heddlu, ond gan fod holl ddiwyg cloriau'r CDau yn arddangos bathodyn Heddlu Gogledd Cymru yn glir, ac yn cynnwys rhagair gan y Prif Gwnstabl yn annog staff i ddatblygu eu sgiliau iaith, maent yn anfon neges glir ynghylch ymrwymiad y sefydliad i hybu a chefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.

Ym mis Ebrill 2006 aethpwyd gam ymhellach i godi lefelau yn yr Heddlu pan ddaeth yn ofynnol i bob swyddog ac aelod o staff ddangos sgiliau iaith Gymraeg i Lefel 1 cyn iddynt fod yn gymwys i gymryd rhan mewn unrhyw broses ddyrchafu fewnol neu wneud cais am swydd ar raddfa uwch. Y sail resymegol am hyn oedd yr awydd i sicrhau bod Protocol Lefel 1 hefyd yn cael effaith ar staff presennol yr Heddlu yn ogystal â'r rhai newydd fel rhan o'r broses o gyflwyno newid ieithyddol.



Yn Ionawr 2008, mewn ymdrech bellach i gyflymu traweffaith y protocolau iaith ar y gweithlu ac i sicrhau cynnydd fe wnaeth yr Heddlu 'godi'r bar' a gofyn i bob ymgeisydd am swydd gyda Heddlu Gogledd Cymru nad oedd eisoes yn medru siarad Cymraeg ddangos sgiliau iaith Gymraeg i Lefel 2 cyn iddynt, ac er mwyn iddynt gael cynnig swydd. Hefyd, roedd yn rhaid iddynt ddatblygu eu sgiliau i lefel 3 yn ystod eu cyfnod prawf. Darparwyd cwrs lefel 3, oedd yn parhau am 10 niwrnod, yn ystod oriau gwaith er mwyn eu cynorthwyo i gyrraedd y nod. Fel o'r blaen, efelychwyd y disgwyliad hwn y broses ddyrchafu fewnol ac ers mis Ionawr 2008 mae'n rhaid i bob swyddog ac aelod o staff Heddlu Gogledd Cymru ddangos sgiliau iaith Gymraeg Lefel 2 cyn iddynt fod yn gymwys i gymryd rhan mewn unrhyw broses ddyrchafu. Erbyn hyn, fel rhan o Bolisi Sgiliau Iaith Gymraeg newydd yr Heddlu a sefydlwyd yn 2013 disgwyliar bod unrhyw aelod o staff sydd wedi cael dyrchafiad yn cyrraedd Lefel 3 erbyn diwedd y cyfnod prawf. Mae hyn yn brawf o awydd yr Heddlu i sicrhau bod y gallu i ddangos cwrteisi ieithyddol a chynnig dewis iaith yn rhan o'r agenda arweinyddiaeth ar bob lefel.

Symud ymlaen - cynyddu capasiti ymhlith aelodau o'r timau rheoli a rheolwyr uwch

Menter arall a sefydlwyd gan y Prif Gwnstabl presennol oedd cynyddu capasiti iaith ymhlith swyddogion a staff ar lefelau a rhengoedd rheoli yn yr Heddlu. Roedd yr adolygiad sgiliau iaith a gynhaliwyd yn 2009 wedi cadarnhau'r hyn oedd eisoes yn hysbys - fod prinder siaradwyr Cymraeg hyderus ymhlith swyddogion ar lefel arolygydd, prif arolygydd ac uwcharolygydd. Yn sgil hyn, pennwyd gofyniad bod rheolwyr nad oeddynt eisoes yn gallu siarad Cymraeg yn codi eu sgiliau iaith lafar un lefel. Y disgwyliad erbyn hyn yw y dylai aelodau o dimau rheoli gyrraedd lefel 3 yn eu sgiliau llafar. Mae'r fenter hon wedi sicrhau bod o leiaf rhywfaint o sgiliau llafar gan reolwyr yr Heddlu a bod gallu yn y Gymraeg yn cael ei ystyried gan y sawl sy'n ymgeisio am swydd neu rôl uwch fel disgwyliad cyffredinol. Yn bwysicach, mae hyn wedi cyfrannu at gynyddu capasiti iaith yr Heddlu trwy ddylanwadu ar

garfan o staff na fyddai, efallai, wedi ymwneud â'r iaith Gymraeg fel arall. Mater arall yw cynyddu defnydd o'r sgiliau iaith ymhlith rheolwyr fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd. Ond gosodwyd disgwyliad gan y Prif Gwnstabl fod y sawl sy'n mynychu byrddau dyrchafu er mwyn cyrraedd y rhengoedd uwch yn gallu arddangos eu sgiliau iaith a'u hymwybyddiaeth o berthnasedd y gallu i ddangos cwrteisi iaith wrth i'r Heddlu ddarparu cymorth a gwasanaethau i ddefnyddwyr.

Cynllunio a darparu hyfforddiant i gefnogi'r Cynllun Iaith Gymraeg

O 2001 ymlaen sefydlwyd cyfres o gyflwyniadau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o gyrtsiau ar gyfer rheolwyr a staff yr Heddlu newydd er mwyn codi proffil y dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth ac egluro pam bod angen rhoi sylw iddynt a sut i fynd o'i chwmpas. Nid oedd yn hawdd cyrraedd y swyddogion newydd ar y pryd gan fod eu hyfforddiant cychwynnol yn cael ei gynnal mewn canolfannau hyfforddi yn Lloegr. Newidiwyd hyn yn 2004 yn dilyn y penderfyniad y byddai holl swyddogion newydd yr heddlu yn cael eu holl hyfforddiant yng ngogledd Cymru o hynny ymlaen. Erbyn hyn mae sesiynau ymwybyddiaeth iaith yn rhan orfodol o gwricwlwm cwrs cychwynnol y swyddogion newydd er mwyn sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd dangos cwrteisi iaith a chynnig dewis iaith fel rhan o ddarparu gwasanaeth o safon i'r cyhoedd.

Bu rhywfaint o fuddsoddiad mewn cynnal rhai cyrsiau iaith Gymraeg yn yr Heddlu yn y cyfnod ar ôl mabwysiadau Cynllun Iaith Gymraeg rhwng 1997 a 2000. Cyrsiau ar gyfer lefelau dechreuwyd a chanolig oedd y rhain yn bennaf. Roedd patrwm y cyrsiau iaith yn debyg i'r hyn oedd yn digwydd yn y ddarpariaeth yn y gymuned, sef sesiynau dwy i dair awr ar yr un diwrnod yn wythnosol. Rhoddwyd sylw penodol i anghenion y ddarpariaeth hyfforddiant iaith yn HGC yn 2000 ac un o'r tasgau cyntaf oedd cynnal adolygiad o anghenion hyfforddiant iaith i benderfynu blaenoriaethau ar sail anghenion busnes. Arbrofwyd gyda chynnal cyrsiau dwys byr ar



gyfer dechreuwyd a dysgwyr canolig yn y gweithle mewn bloc.


Cynhaliwyd tiwtorialau i ddiwallu anghenion dysgu gwahanol y prif swyddogion a'u cynorthwyo i baratoi ar gyfer sefyll arholiadau. Penderfynwyd defnyddio arholiadau allanol 'Defnyddio'r Gymraeg' CBAC ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg i asesu cyrhaeddiad y staff ar y cyrsiau iaith. Gwnaed hyn er mwyn dangos gwerth y dysgu trwy ennill cymhwyster ffurfiol allanol, yn gyntaf i godi proffil yr hyfforddiant, ac yn ail yn absenoldeb unrhyw brawf hyfedredd iaith oedd yn berthnasol i'r maes plismona. Cynyddodd y galw am gyrsiau hyfforddiant iaith ac yn sgil hyn penderfynwyd defnyddio darparwr hyfforddiant iaith allanol i ymgymryd â'r prif gyrsiau. Yn 2003 penodwyd Coleg Llysfasi (rhan o Goleg Cambria erbyn hyn) ar gyfer y gwaith hwn. Mae parodrwydd Rheolwyr a thiwtoriaid y Coleg i ymateb i ymdrechion Heddlu Gogledd Cymru i gyflwyno dulliau newydd o ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg yn y gweithle wedi bod o gymorth mawr ac yn bartneriaeth llwyddiannus sydd yn parhau hyd heddiw.

Daeth yn amlwg iawn fod rhaid cwrdd ag amcanion penodol y cwrs ar gyfer staff y

cownteri, a'r ffaith fod rhaid iddynt hwy ddatblygu lefel benodol o allu yn y Gymraeg o fewn cyfnod penodol i gydymffurfio â'r amodau iaith yn eu cytundebau gwaith. Lluniwyd ymarfer llafar galwedigaethol i asesu eu gallu ar sail lefel 3 yn Fframwaith gallu iaith Gymraeg yr Heddlu yn 2004 yn hytrach na defnyddio arholiad cyhoeddus allanol. Dyma gychwyn ar lwybr a fyddai'n arwain, faes o law, at sefydlu cyfres o gyrsiau iaith lafar galwedigaethol a phrofion iaith i'w asesu a grëwyd yn benodol i ddiwallu anghenion Fframwaith Gallu yn y Gymraeg yr Heddlu. Maent yn enghraifft arall o sut mae'r Heddlu wedi mentro, arloesi a gweithredu i ddod o hyd i ddulliau addas er mwyn datblygu sgiliau iaith staff ac asesu eu sgiliau iaith lafar. Yn hyn o beth maent wedi codi a chadarnhau proffil yr Heddlu fel sefydliad sy'n cymryd cynllunio ieithyddol o ddifrif.

Dengys y tabl isod y cynnydd sydd wedi digwydd o ran sgiliau llafar yr holl swyddogion a staff rhwng 2006 - 2015 yn dilyn mentrau iaith a ddatblygwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf . Gellir gweld fod y fenter i sicrhau bod yr holl staff yn gallu o leiaf arddangos cwrteisi iaith sylfaenol (sgiliau llafar lefel 1) wedi bod yn llwyddiannus.

Tabl 1 - Cynnydd yng Nghapasiti Iaith HGC yn Ystod y Cyfnod 2006 -2015
Cymraeg Llafar yn ôl Canran - Cyfanswm Cyflogedigion





HYRWYDDO GWEITHLEOEDD DWYIEITHOG

laith weladwy a chlywadwy

Yn 2001, fel rhan o'r awydd i godi proffil y Gymraeg a chreu mwy o ddefnydd ohoni crëwyd bathodyn sgiliau iaith cyntaf yr Heddlu, sef 'Dw i'n dysgu'. Cafodd y bathodyn dderbyniad brwdfrydig gan staff a'r cyhoedd fel ei gilydd. Yn ddiweddarach crëwyd bathodyn unigryw arall ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn yr heddlu, sef y bathodyn 'Dw i'n siarad Cymraeg', oherwydd yr angen am rywbeth amlwg i ddangos gallu yn y Gymraeg a fyddai'n addas i swyddogion ei wisgo ar eu lifrai. Mae protocol gwisg yr Heddlu yn annog y staff i wisgo'r bathodynau tra ar ddyletswydd, sydd ynddo'i hun yn neges o 'ganiatâd corfforaethol' i'r gwaith o hyrwyddo'r iaith. Anogir staff i osod fersiwn electronig o'r bathodyn priodol yn eu cyfeiriadau e-bost, ac mae'r bathodynau hefyd wedi'u hargraffu ar y rheffynnau sy'n dal cardiau adnabod staff. Erbyn hyn mae'r ddau fathodyn wedi cael eu mabwysiadu gan holl heddluoedd Cymru a nifer o gyrff cyhoeddus eraill.

Yn fwy diweddar, yn 2011 crëwyd posteri i'w rhoi ar waliau swyddfeydd yr Heddlu fel rhan o brosiect ar y cyd â Heddluoedd eraill Cymru i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwaith ymhlith dysgwyr a siaradwyr Cymraeg dihyder fel ei gilydd, gan ddefnyddio'r geiriad 'Rho gynnig ar dy Gymraeg' / 'Give your Welsh a go'.

Hefyd ers 2001 mae gwobr yn cael ei chyflwyno er mwyn codi proffil ymdrechion staff i wella eu sgiliau iaith, sef tlws 'Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn', sy'n cael ei gyflwyno i aelod o staff sydd wedi gwneud ymdrech arbennig i ddysgu neu i ddefnyddio sgiliau iaith newydd. Ychwanegwyd gwobr arall yn 2003 i gydnabod ymdrechion gan staff i annog a chefnogi dysgu a defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith ar ffurf tlws 'Pencampwr Iaith Gymraeg y Flwyddyn'.

O ganlyniad i'r holl waith hwn i godi proffil y Gymraeg, rhoddwyd cefnogaeth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'r Heddlu fel rhan o waith partneriaeth i redeg prosiect i hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog. Bwriad y prosiect

oedd datblygu mwy o weinyddu dwyieithog o fewn y corff, a chreu'r cyfle a'r hinsawdd briodol i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg nid yn unig gyda'r cyhoedd ond hefyd yn y gweithle. Canlyniad hyn oedd gweld y staff yn magu hyder i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith yn y gweithle ac yn sgil hynny yn cynnig gwell gwasanaeth i'r gymuned. Cafwyd cymorth pellach gan Fwrdd yr Iaith yn 2010 ar gyfer prosiect i gynhyrchu adnoddau i gefnogi dysgwyr yn yr Heddlu i gael y gallu a'r hyder i wneud mwy o ddefnydd o'u sgiliau iaith newydd. Yn ddiweddar mae Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu wedi ail gydio yn y gwaith o hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog er mwyn, annog a chefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan y staff yn y gwaith.

CASGLIADAU

Mae arweiniad, arloesedd ac ymdrech ym maes hybu, hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a'r gallu i gynnig dewis iaith i'r cyhoedd wedi ennyn cryn glod a chydabyddiaeth i Heddlu Gogledd Cymru yn ystod y ddegawd ddiwethaf

Mae'r ffaith fod y Prif Gwnstablaid sydd wedi arwain yr heddlu ers 2001 wedi ymgymryd â'r dasg o ddysgu a defnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg mor frwdfrydig, a hynny'n amlwg yn y gweithle ac yn y parth cyhoeddus, wedi creu dull newydd o arweinyddiaeth sydd wedi dangos parch at yr iaith Gymraeg ac yn cydnabod ei harwyddocâd ym mywyd cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn enghraifft o arweiniad trwy esiampl a'r agwedd 'dw i'n gallu gwneud hyn' sydd mor ddwfn ym meddylfryd gwasanaeth brys fel yr Heddlu. Mae'r arweinyddiaeth hon wedi dylanwadu ar brif swyddogion eraill, ar y sawl sy'n ymgeisio i fod yn rheolwr uwch ac ar staff yn gyffredinol.

Ni ddylid anghofio bod hyn oll wedi cychwyn o ganlyniad o weledigaeth rhai aelodau o Awdurdod yr Heddlu a'u penderfyniad yn 2000 i argymhell bod prif swyddogion newydd Heddlu Gogledd Cymru, gyda chefnogaeth, yn dysgu rhywfaint o Gymraeg er mwyn dangos sensitifrwydd ac empathi tuag at y gymuned



ddwyieithog y maent yn gyfrifol am ei gwasanaethu. I danlinellu'r disgwyliad rhoddwyd amod ieithyddol i gyrraedd lefel benodol o allu yn y Gymraeg o fewn cyfnod penodol yng nghytundeb y Prif Gwnstabl a benodwyd yn 2009. Dyma enghraifft o allu grym haen benodol o reolaeth yn y strwythur plismona i gyflawni ei nod o adnabod anghenion a dyheadau lleol.

Mae'r Prif Gwnstabl presennol wedi dangos yr un ymroddiad a'i ragflaenydd i ddysgu'r Gymraeg a llwyddo mewn arholiadau allanol gan gyflawni'r amod iaith yn ei gytundeb ac mae'n parhau i ddysgu ac ymarfer ei sgiliau. Hefyd, ers iddo gael ei benodi, ac yn dilyn dyfodiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, mae'r blaenoriaethau yn y Cynllun Iaith Gymraeg ar y cyd wedi eu diwygio a'u hatgyfnerthu gan osod nodau ieithyddol newydd i aelodau o'r timau rheoli a staff eraill eu cyrraedd a chydymffurfio â nhw.

Ond nid yw arweinyddiaeth yn ddigon ar ei ben ei hun. Adnabu'r Prif Gwnstablaid hefyd yr angen i fuddsoddi mewn adnoddau staffio arbenigol a phrofiadol ychwanegol i ganolbwyntio ar y dasg o gyflwyno a sefydlu prosesau a gweithdrefnau newydd a chynnal prosiectau penodol i gyflwyno dwyieithrwydd a hybu'r Gymraeg. Cydnabuwyd pwysigrwydd rhoi sylw cyson i gynhyrchu gwybodaeth a llenyddiaeth yn ddwyieithog fel rhan o'r ymdrech i greu delwedd gorfforaethol gwbl ddwyieithog i'r Heddlu a chefnogir staff i gyflawni hyn gyda chymorth ac arbenigedd yr uned gyfieithu fewnol.

Dadleuwyd yn eithaf llwyddiannus fod yr agenda yn llwyr berthnasol i ymddygiadau sgiliau plismona craidd a bod adnabod gallu yn y Gymraeg fel un o'r sgiliau hyn wedi bod yn sylfaenol bwysig i'r ymdrechion i gynyddu capasiti iaith y sefydliad. Rhoddwyd sylw i ehangu gallu dwyieithog yr Heddlu ac i sicrhau y gall staff ddangos o leiaf cwrteisi ieithyddol yn y Gymraeg.

Trwy gydol y cyfnod ceisiwyd cysylltu perthnasedd yr ymdrechion i hybu dwyieithrwydd â chynnal a gwella safonau plismona proffesiynol. Mae cysylltiad clir rhwng

y gallu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog â'r gallu i fodloni gofynion defnyddwyr y gwasanaeth ac i gyfathrebu'n effeithiol â nhw, sef un o'r sgiliau plismona craidd hollbwysig. Bu'n rhaid gwrthsefyll sawl her wrth symud y gwaith hyrwyddo yn ei flaen a rhaid oedd dal ati i bwysleisio'n gyson mai 'Cymru ydy hon' ac 'mae darparu dewis iaith yn ddeddf wlad - mae'n rhaid i ni wneud hyn.'

Nid yw'r Heddlu wedi cyrraedd y pwynt eto lle mae sgiliau dwyieithog hyderus yn y mwyafrif ymhlith y staff, ond gellid dadlau na chaiff y nod hon byth ei chyflawni hyd nes y gall y gyfundrefn addysg yng Nghymru gynhyrchu darpar staff sydd â'r gallu angenrheidiol. Mae gwaith i'w wneud o hyd felly i godi hyder a chefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Serch hynny drwy'r ymdrechion a wnaed dros y blynyddoedd diweddar llwyddwyd i raddau helaeth i brif ffrydio'r dimensiwn iaith Gymraeg i mewn i werthoedd plismona HGC.

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynt, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, unigolion amlwg yn y maes hyrwyddo'r Gymraeg ac asiantaethau eraill wedi cydnabod lawer gwaith yr holl waith da sydd wedi digwydd, ac sy'n parhau i ddigwydd yn Heddlu Gogledd Cymru i hyrwyddo dwyieithrwydd. Yn y cyfnod i ddod bydd gan y safonau iaith arfaethedig sydd i'w sefydlu o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rôl rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg, gwaith strategaeth iaith a hyrwyddo Llywodraeth Cymru ac awydd a pharodrwydd siaradwyr Cymraeg i wneud defnydd llawn o'r dewis iaith sydd ar gael wrth ymwneud â'r Heddlu, ran allweddol i'w chwarae i sicrhau sylw parhaol a chynyddol i'r gwaith pwysig o hybu, hyrwyddo a chynyddu dwyieithrwydd.



ATODIADAU

Atodiad A

STRATEGAETH CYMDEITHAS PRIF SWYDDOGION YR HEDDLU AR GYFER YR HEDDLU 2001

IAITH

Bydd ein dull strategol mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- **Statws cydradd i'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg**
- **Dwyieithrwydd yw ein nod yn y pen draw**
- Er mwyn cefnogi'r egwyddorion hyn byddwn yn mabwysiadu'r tactegau canlynol:
 - ehangu'r cynllun iaith Gymraeg
 - hyfforddiant mewnol
 - mwy o swyddi 'Cymraeg yn hanfodol'
 - mwy o gyfle i ddysgu
 - cefnogaeth weithredol i ddysgwyr Cymraeg
 - mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn busnes
 - sicrwydd o ddewis ieithyddol wrth gyflwyno'r gwasanaeth



ATODIADAU

Atodiad B

BLAENORIAETHAU IAITH GYMRAEG CYFREDOL HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mae ein dull strategol o ymdrin â'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn:

- statws cydradd i'r Gymraeg a'r Saesneg
- rydym yn anelu tuag at fod yn sefydliad dwyieithog

Yn unol â'n cyfrifoldebau i'n cymunedau a'n dyletswyddau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Mae ein Cynllun Iaith Diwygiedig yn egluro sut yr ydym yn gweithio tuag at sicrhau ein bod yn cynnig dewis iaith yn narpariaeth ein gwasanaethau ac yn ein prosesau mewnol.

Rydym yn gweithio gyda'r partneriaid perthnasol i sicrhau y cynigir dewis iaith dilys i'r rhai hynny sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder.

Bydd gweithio tuag at wireddu hyn yn cynnwys y tactegau canlynol:

- Cwblhau'r amcanion a ddynodwyd yn ein Cynllun Iaith Gymraeg
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg fel iaith fusnes yn y gweithle
- Gwella gallu dwyieithog yr Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi staff i ddatblygu a gwneud defnydd llawn o'u sgiliau iaith Gymraeg yn ogystal â sicrhau bod gan bawb sy'n ymuno â gwasanaeth yr heddlu sgiliau Cymraeg sylfaenol pan fyddant yn cael eu penodi
- Dynodi anghenion ieithyddol swyddi mewn gwahanol ardaloedd o'r Heddlu
- Hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg pan fydd y cyhoedd yn cysylltu â ni
- Cysylltu egwyddorion ansawdd gwasanaeth â darpariaeth dewis iaith i ddefnyddwyr
- Cynnig gwasanaeth gwybodaeth gwirioneddol ddwyieithog



Bydd Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn anelu at:

- Fod yn sefydliadau mwy dwyieithog.
- Cynyddu nifer y staff sy'n medru siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn hyderus a'u hannog i wneud mwy o ddefnydd o'u sgiliau er mwyn cyfrannu tuag sicrhau dewis iaith i'r cyhoedd.
- Codi ymwybyddiaeth staff presennol a staff newydd ynghylch ymrwymiad yr heddlu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.
- Gweithio tuag at ddenu mwy o geisiadau gan siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o gymunedau Cymraeg i ymuno â HGC fel swyddogion neu staff yr Heddlu. Rhan o hyn fyddai meithrin mwy o gysylltiad â siaradwyr Cymraeg a chynrychiolwyr grwpiau iaith Gymraeg yn ein cymunedau.
- Parhau â strategaeth sgiliau iaith er mwyn sicrhau bod pob aelod newydd o staff gan gynnwys y rhai hynny yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gallu dangos o leiaf cwrteisi ieithyddol sylfaenol cyn ymuno, yn ychwanegol at ganolbwyntio ar staff presennol sy'n cael cyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd. Byddwn yn cynorthwyo darpar staff i gyrraedd y lefelau angenrheidiol drwy ddarparu adnoddau 'hunan addysgu' ac yn eu cyfeirio hefyd at gyfleoedd am gymorth allanol. Unwaith y bydd staff wedi'u penodi byddant yn cael cynnig rhaglenni hyfforddiant yn ystod oriau dyletswydd i ddatblygu eu gallu yn y Gymraeg.
- Sicrhau bod gweithrediadau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol mewnol yn llwyr gydnabod ac yn ystyried gallu yn y Gymraeg fel sgil, ochr yn ochr â sgiliau angenrheidiol eraill.
- Chwilio am gyfleoedd i hybu a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyfarfodydd a gweithdrefnau gyda'r Swyddfa Gartref, AHEM a heddluoedd eraill Cymru.
- Manteisio ar bob cyfle i ddehongli ein hymrwymiad i'r Gymraeg fel rhan o'n hymdrechion i gydnabod Hil ac Amrywiaeth yng Nghymru.



ATODIADAU

Atodiad C

FFRAMWAITH CYMHWYSEDD IAITH GYMRAEG

1. Fframwaith

1.1. Elfennau

- I ddangos sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth ieithyddol
- I ddangos parodrwydd i ddysgu Cymraeg a'i defnyddio yn y gweithle
- I ddeall Cymraeg
- I hwyluso dewis iaith i'r cwsmer
- I siarad Cymraeg
- I ysgrifennu Cymraeg (lle bo hynny'n briodol)
- Gallu a pharodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio gyda'r cyhoedd

1.2. Bydd y lefelau'n rhoi syniad o allu'r unigolyn ar y pryd, gydag ystod yn dechrau gyda lefel 0 (dim sgiliau iaith Gymraeg) hyd at lefel 5 - 'hollol rugl'. (Yn gallu, yn hyderus ac yn fodlon defnyddio'r Gymraeg wrth weithio gyda'r cyhoedd).

2. Eglurhad o'r Fframwaith Cymhwysedd:

Mae pob lefel yn cynnwys datganiadau 'yn gallu' sy'n:

- Diffinio lefel gallu o safbwynt yr hyn mae defnyddwyr yr iaith yn gallu ei wneud ar bob lefel o'r fframwaith
- Ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddeall beth mae pob lefel yn ei olygu mewn perthynas â'r hyn y mae defnyddwyr yr iaith yn ei wneud go iawn.



Rhai Ffyrdd o Ddefnyddio'r Gymraeg yn yr Heddlu	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5
Mewn Swyddfa	Yn gallu dweud enwau lleoedd / enwau personol neu arwyddion Cymraeg yn gywir. Yn gallu adnabod adrannau / lleoliadau / rhengoedd yn Gymraeg. Yn gallu cyfarch a chyflwyno eraill yn Gymraeg.	Yn gallu deall hanfodion sgwrs yn Gymraeg. Yn gallu cyflwyno gwybodaeth elfennol e.e. gweinyddu syml neu dasgau bob dydd.	Yn gallu deall llawer yn y swyddfa neu mewn cyfarfodydd. Yn gallu derbyn a throsglwyddo negeseuon sydd angen sylw yn ystod diwrnod gwaith arferol.	Yn gallu cyfrannu'n effeithiol i gyfarfodydd o fewn eu maes gwaith eu hunain yn ogystal â dadlau dros neu yn erbyn achos.	Yn gallu cyfweld ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith am swyddi yn ogystal ag asesu pa mor addas dydynt.
Dyletswyddau Swyddogion Heddlu	Yn gallu dangos cwrteisi ieithyddol trwy agor a chau sgwrs. Yn gallu rhoi a derbyn manylion personol. Yn gallu dweud enwau lleoedd / enwau personol neu arwyddion Cymraeg yn gywir.	Yn gallu deall hanfodion cais gan y cyhoedd ac ymateb i geisiadau syml. Yn gallu rhoi a derbyn cyfarwyddiadau.	Yn gallu sgwrsio'n rhannol yn Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg wrth drafod neu wrth roi gwybodaeth fanwl. Yn gallu disgrifio pobl a lleoliadau.	Yn gallu delio gyda'r cyhoedd yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd yn Gymraeg ond yn troi i'r Saesneg wrth ddefnyddio terminoleg blismona / dechnegol.	Yn gallu delio'n effeithiol gydag ymholiadau cymhleth gan y cyhoedd neu ddelio gyda gwrthdaro yn Gymraeg. Yn gallu cyfweld neu holi yn Gymraeg wrth gynnal ymchwiliad.
Derbynfa / Cownter Gorsaf Heddlu / Ar y ffôn	Yn gallu cyfarch yn ddwyieithog mewn modd priodol i'r lleoliad. Yn gallu cyfarch ymwelwyr a chaniatáu dewis iaith.	Yn gallu deall cais am gymorth ac ymateb yn Gymraeg i geisiadau syml. Yn gallu defnyddio'r Gymraeg wrth drosglwyddo galwadau.	Yn gallu ymateb i ymholiadau cyffredinol dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Yn gallu cymryd manylion neu nodiadau o wrando ar sgwrs Gymraeg.	Yn gallu delio'n effeithiol gydag ymholiadau. Yn gallu deall pobl sy'n siarad mewn gwahanol dafodieithoedd.	Yn gallu delio gydag ymholiadau neu gwynion cymhleth neu sensitif gan y cyhoedd a delio'n hyderus â chwestiynau ymosodol.
Cyfarfodydd Cyhoeddus / Siarad â'r Cyfryngau	Yn gallu cychwyn a gorffen cyfarfod ynghyd â chyfarch aelodau yn ddwyieithog.	Yn gallu cyflwyno eich hun ac eraill trwy ddefnyddio enw, rheng, swydd a lleoliad / sefydliad. Yn gallu cyfrannu i gyfarfod yn rhannol yn Gymraeg	Yn gallu sgwrsio neu gyflwyno yn rhannol Gymraeg gan droi at y Saesneg wrth drafod manylion busnes craidd, wrth ateb cwestiynau neu wrth ddefnyddio gwybodaeth gymhleth.	Yn gallu cadeirio cyfarfod ac ymateb i gwestiynau Cymraeg. Yn gallu disgrifio sefyllfa neu ddigwyddiad yn Gymraeg, ond yn troi at y Saesneg am dermau plismona neu dechnegol.	Yn gallu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn gallu ateb cwestiynau cymhleth neu ymosodol yn Gymraeg gan gynnwys defnyddio gwybodaeth arbenigol.
Ysgrifennu	Yn gallu ysgrifennu cais arferol syml i gydweithwyr, megis 'Ga' i os gwelwch yn dda?'	Yn gallu ysgrifennu nodyn byr o gais i gydweithiwr neu gyswilt allanol.	Yn gallu ysgrifennu memo mewnol neu negeseuon e-bost anffurfiol, a delio gyda cheisiadau bob dydd.	Yn gallu ysgrifennu llythyrau busnes, negeseuon a phosteri ar gyfer cwsmeriaid allanol gyda chymorth golygyddol.	Yn gallu ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau a chymryd cofnodion llawn a chywir yn ystod cyfarfodydd.